DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Trethiant (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

Casglu a rheoli trethi

1 Cyfranogiad ym mhwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru gan bersonau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod
2 Dirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru
3 Datgelu gwybodaeth warchodedig
4 Pŵer i gadw ad-daliadau treth yn ôl yn ystod ymholiad Awdurdod Cyllid Cymru
5 Hawliadau am ryddhad rhag treth a ordalwyd: ad-dalu llog taliadau hwyr
6 Rhoi rhesymau dros beidio â rhoi effaith i hawliadau am ryddhad yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd
7 Hysbysiadau trethdalwr ar ôl dychwelyd ffurflen dreth
8 Archwilio mangre
9 Llog taliadau hwyr ar drethi a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru
10 Cymhwyso DCRhT i'r Goron at ddibenion treth trafodiadau tir

Treth trafodiadau tir

11 Eithriad ar gyfer trafodiadau hawliau ar y cyd rhag cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir
12 Cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir: personau nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr
13 Trafodiadau sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth noeth

Treth gwarediadau tirlenwi

14 Gweithgarwch safle tirlenwi penodedig

Cyffredinol

15 Dehongli
16 Dod i rym
17 Enw byr

Bil Trethiant (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth ynghylch penderfyniadau a dirprwyo gan Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC"), datgelu gwybodaeth warchodedig sy'n dod i law ACC, casglu a rheoli trethi gan ACC a chymhwyso Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) i'r Goron; i ddarparu esemptiad rhag y cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir ar gyfer trafodiadau hawliau ar y cyd; i wneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n cyfrif fel prynwr at ddibenion penderfynu a yw trafodiad yn ddarostyngedig i'r cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir; i wneud darpariaeth ynghylch trafodiadau gan ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth noeth at ddibenion treth trafodiadau tir; ac i wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n cyfrif fel gwarediad trethadwy at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi.

Mae Senedd Cymru, gyda chydsyniad Ei Fawrhydi, yn deddfu fel a ganlyn:

Casglu a rheoli trethi

1 Cyfranogiad ym mhwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru gan bersonau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 8 (pwyllgorau ac is-bwyllgorau)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "pwyllgorau" mewnosoder "o ACC";

(b) yn is-adran (2), yn lle "ei bwyllgorau" rhodder "pwyllgorau o ACC";

(c) yn is-adran (3), hepgorer ", ond nid oes gan y personau hynny hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor";

(d) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Nid oes gan aelod o bwyllgor o ACC nad yw'n aelod o ACC hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor, oni bai bod yr aelod o'r pwyllgor—

(a) yn aelod o staff ACC, a

(b) wedi ei awdurdodi gan ACC i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor.";

(e) yn is-adran (5), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "o ACC";

(f) yn is-adran (6)—

(i) ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "o ACC";

(ii) hepgorer ", ond nid oes gan y personau hynny hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor";

(g) ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(6A) Nid oes gan aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o ACC nad yw'n aelod o ACC hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r is-bwyllgor, oni bai bod yr aelod o'r is-bwyllgor—

(a) yn aelod o staff ACC, a

(b) wedi ei awdurdodi gan y pwyllgor o ACC i bleidleisio yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor.";

(h) yn is-adran (7), ar ôl "aelodau o ACC" mewnosoder "nac yn aelodau o staff ACC";

(i) ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

"(8) Nid oes unrhyw beth yn is-adrannau (1) i (7) yn effeithio ar unrhyw bŵer sydd gan aelodau o staff ACC i—

(a) sefydlu pwyllgorau sy'n cynnwys staff ACC, neu is-bwyllgorau o bwyllgorau o'r fath, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â swyddogaethau ACC y mae staff ACC wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni,

(b) pennu cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau o'r fath, nac

(c) penodi personau i bwyllgorau ac is-bwyllgorau o'r fath nad ydynt yn staff ACC.

(9) Mae is-adran (10) yn gymwys i aelod o bwyllgor a sefydlir gan aelodau o staff ACC at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â swyddogaethau ACC y mae staff ACC wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni neu i aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath.

(10) Os nad yw'r aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor yn aelod o staff ACC, nid oes gan yr aelod hawl i bleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor oni bai—

(a) bod yr aelod—

(i) yn aelod o ACC, neu

(ii) yn berson y mae swyddogaethau ACC wedi eu dirprwyo iddo, a

(b) bod yr aelod wedi ei awdurdodi gan brif weithredwr ACC i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu is-bwyllgor o'r pwyllgor.

(11) Caiff awdurdodiad o dan is-adran (3A)(b), (6A)(b) neu (10)(b) ymwneud â'r holl faterion a ystyrir gan y pwyllgor neu'r is-bwyllgor neu faterion a bennir yn yr awdurdodiad yn unig."

(3) Yn adran 10(1) (gweithdrefn), yn lle "neu is-bwyllgor" rhodder "o ACC neu is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath".

(4) Yn adran 11 (dilysrwydd trafodion a gweithredoedd), yn lle "neu is-bwyllgor" rhodder "o ACC neu is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath".

(5) Yn adran 17(2) (cyfrinachedd gwybodaeth warchodedig), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(ca) sy'n aelod o bwyllgor a sefydlwyd gan aelodau o staff ACC at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â swyddogaethau ACC y mae staff ACC wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni neu'n aelod o is-bwyllgor o bwyllgor o'r fath,".

(6) Yn adran 22(3) (tystiolaeth), ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) bod pwyllgor penodedig a sefydlwyd gan staff ACC neu is-bwyllgor penodedig o bwyllgor o'r fath ar adeg benodedig neu at ddiben penodedig (neu'r ddau) wedi ei awdurdodi i arfer un o swyddogaethau ACC;".

(7) Yn adran 192(2) (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "pwyllgor o ACC" (*"committee of WRA"*) yw pwyllgor sy'n cynnwys un neu ragor o aelodau o ACC a sefydlir o dan adran 8(1);".

(8) Yn adran 193 (mynegai o ymadroddion a ddiffinnir), yn y tabl, yn y lle priodol, mewnosoder—

"pwyllgor o ACC (*"committee of WRA"*)	adran 192(2)".

2 Dirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 13 (awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "raddau" mewnosoder "ac mewn unrhyw ffordd a bennir yn yr awdurdodiad";

(b) hepgorer is-adran (2).

(3) Yn adran 14 (dirprwyo swyddogaethau), ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

"(8) Os nad yw person a ragnodir o dan is-adran (1) ("P") yn awdurdod a gedwir yn ôl a bod ganddo'r pŵer i ddirprwyo swyddogaethau P ei hun, caiff un o swyddogaethau ACC a ddirprwywyd i P o dan yr is-adran honno ei thrin fel un o swyddogaethau P at ddibenion y pŵer hwnnw, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan is-adran (2) neu unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan is-adran (9).

(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wahardd neu gyfyngu ar ddirprwyo swyddogaethau ACC ymhellach gan berson a ragnodir o dan is-adran (1) nad yw'n awdurdod a gedwir yn ôl ac y mae swyddogaethau ACC wedi eu dirprwyo iddo o dan yr adran hon.

(10) Yn is-adrannau (8) a (9), mae i "awdurdod a gedwir yn ôl" yr ystyr a roddir i *"reserved authority"* ym mharagraff 8(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)."

(4) Yn adran 192 (dehongli), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(4) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo yn cynnwys person y mae'r swyddogaethau wedi eu dirprwyo ymhellach iddo o dan ddeddfiad neu reol gyfreithiol."

3 Datgelu gwybodaeth warchodedig

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 18(1) (datgelu a ganiateir)—

(a) ym mharagraff (za), yn lle "adran 12(2)(a) ac (e), a (3)," rhodder "—

(i) adran 12(2)(a) a (3), a

(ii) adran 12(2)(e) (ond gweler is-adran (1A)),";

(b) ar ôl paragraff (k) mewnosoder—

"(l) os gwneir hynny i berson cymhwysol mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau prif gyngor sy'n ymwneud â chasglu a rheoli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig."

(3) Ar ôl adran 18(1) mewnosoder—

"(1A) Er gwaethaf is-adran (1)(za)(ii), mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig os gwneir hynny i brif gyngor at ddibenion swyddogaethau ACC sy'n ymwneud ag asesu a chasglu'r ardoll ymwelwyr.

(1B) Yn is-adran (1)(l), ystyr "person cymhwysol" yw—

(a) prif gyngor;

(b) person sydd wedi ei awdurdodi i arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau cyngor o'r fath sy'n ymwneud â chasglu a rheoli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig;

(c) person sy'n darparu gwasanaethau i gyngor o'r fath sy'n ymwneud â chasglu a rheoli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig."

(4) Ar ôl adran 20 (y drosedd o ddatgelu gwybodaeth warchodedig ar gam) mewnosoder—

"20A Cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig ymhellach

(1) Ni chaniateir i wybodaeth warchodedig a ddatgelir i—

(a) prif gyngor o dan adran 18(1)(za) neu 18(1A), neu

(b) person cymhwysol (o fewn ystyr adran 18(1B)) o dan adran 18(1)(l),

gael ei datgelu ymhellach oni bai bod y datgeliad wedi ei ganiatáu gan is-adran (2).

(2) Mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig—

(a) os caniateir y datgeliad gan baragraffau (a), (c), (e), (f), (g), (h) ac (l) o adran 18(1), neu

(b) os yw ACC yn cydsynio mewn ysgrifen i'r datgeliad (a chaiff y cydsyniad hwnnw fod yn gyffredinol neu'n benodol).

(3) Mae person sy'n datgelu gwybodaeth yn groes i is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(4) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan yr adran hon brofi bod y person yn credu'n rhesymol—

(a) bod y datgeliad wedi ei ganiatáu gan yr adran hon, neu

(b) bod yr wybodaeth eisoes wedi ei darparu yn gyfreithlon i'r cyhoedd.

(5) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na'r terfyn cyffredinol yn y llys ynadon neu i ddirwy (neu'r ddau);

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).

(6) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar y gallu i fynd ar drywydd unrhyw rwymedi na chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â thorri is-adran (1).

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio paragraff (a) o is-adran (2) drwy reoliadau.

(8) Yn yr adran hon, mae i "gwybodaeth warchodedig" yr ystyr a roddir gan adran 17(3)."

(5) Yn adran 189(2) (rheoliadau), ar ôl "18(2)," mewnosoder "20A(7),"

4 Pŵer i gadw ad-daliadau treth yn ôl yn ystod ymholiad Awdurdod Cyllid Cymru

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 44 (cwmpas ymholiad) mewnosoder—

"Cadw ad-daliadau yn ôl yn ystod ymholiad

44A Pŵer i gadw ad-daliadau treth yn ôl yn ystod ymholiad i ddiwygiad i ffurflen dreth

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys—

(a) os yw ACC yn cael ei hysbysu am ddiwygiad i ffurflen dreth o dan adran 41,

(b) pe byddai'r diwygiad yn cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i ACC ad-dalu swm mewn cysylltiad â threth a gesglir gan ACC,

(c) os oes gan ACC reswm i gredu bod risg efallai nad yw'r diwygiad i'r ffurflen dreth yn adlewyrchu sefyllfa dreth gywir y trethdalwr, a

(d) os yw ACC yn dyroddi hysbysiad ymholiad i'r ffurflen o dan adran 43(1) ar ôl i hysbysiad gael ei roi am y diwygiad.

(2) Caiff ACC gadw'r ad-daliad yn ôl hyd oni ddyroddir hysbysiad cau ar gyfer yr ymholiad o dan adran 50.

(3) Rhaid i ACC hysbysu'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth am benderfyniad o dan yr adran hon i gadw ad-daliad yn ôl."

(3) Yn adran 172(2) (penderfyniadau apeliadwy), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(ca) penderfyniad o dan adran 44A i gadw yn ôl ad-daliad sy'n deillio o ddiwygiad i ffurflen dreth;".

(4) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn gymwys mewn perthynas â diwygiadau i ffurflen dreth a wneir o dan adran 41 o DCRhT yr hysbysir Awdurdod Cyllid Cymru amdanynt cyn i'r adran hon ddod i rym.

5 Hawliadau am ryddhad rhag treth a ordalwyd: ad-dalu llog taliadau hwyr

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 73 (rhoi effaith i hawliadau a diwygiadau)—

(a) yn is-adran (1)(b), ar ôl "o dreth a gesglir gan ACC" mewnosoder "ac unrhyw log taliadau hwyr sy'n perthyn i'r swm hwnnw";

(b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) At ddibenion is-adran (1)(b) ac adran 77(1)(b), mae llog taliadau hwyr yn perthyn i swm o dreth a gesglir gan ACC i'r graddau—

(a) y mae i'w briodoli i'r swm, a

(b) na fyddid wedi mynd iddo pe na bai'r swm o dreth a gesglir gan ACC a ollyngwyd neu a ad-dalwyd wedi bod i'w godi neu i'w dalu erioed."

(3) Yn adran 77 (rhoi effaith i ddiwygiadau o dan adran 75), yn is-adran (1)(b), ar ôl "treth a gesglir gan ACC" mewnosoder "ac unrhyw log taliadau hwyr sy'n perthyn i'r swm hwnnw".

(4) Yn adran 157(2) (llog taliadau hwyr), yn lle "Rhan" rhodder "Ddeddf".

(5) Yn adran 192(2) (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder—

"mae i "llog taliadau hwyr" (*"late payment interest"*) yr ystyr a roddir gan adran 157(2);".

6 Rhoi rhesymau dros beidio â rhoi effaith i hawliadau am ryddhad yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd

(1) Mae adran 73 o DCRhT (rhoi effaith i hawliadau a diwygiadau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (1A) (fel y'i mewnosodir gan adran 5) mewnosoder—

"(1B) Pan fo ACC yn penderfynu peidio â rhoi effaith i hawliad neu ddiwygiad (boed yn rhannol neu'n llawn), rhaid i'r hysbysiad o dan is-adran (1)—

(a) rhoi rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw, a

(b) nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(1C) Pan fo ACC yn gwneud ymholiad ynghylch hawliad neu ddiwygiad, nid yw is-adran (1)(a) yn gymwys (gweler adrannau 74 a 75 am ddarpariaeth ynghylch hysbysiadau pan fo ACC yn gwneud ymholiad ynghylch hawliad neu ddiwygiad)."

(3) Yn is-adran (2)—

(a) yn lle "Pan fo" rhodder "Hefyd pan fo";

(b) ym mharagraff (a), ar ôl "(1)" mewnosoder "(b)".

7 Hysbysiadau trethdalwr ar ôl dychwelyd ffurflen dreth

(1) Mae adran 100 o DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), yn lle "neu amod 2" rhodder ", amod 2, amod 3 neu amod 4".

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Amod 3, o ran trafodiad a ryddheir rhag treth trafodiadau tir i unrhyw raddau, yw y rhoddir yr hysbysiad at ddiben gwirio a yw'r rhyddhad yn cael ei dynnu'n ôl i unrhyw raddau o dan ddarpariaeth a grybwyllir yn adran 49 o DTTT.

(5B) Pan fo amod 3 wedi ei fodloni (ac nid unrhyw un neu ragor o amodau 1, 2 neu 4)—

(a) mewn cysylltiad â rhyddhad sy'n ddarostyngedig i gyfnod rheoli, ni chaniateir rhoi hysbysiad trethdalwr yn rhinwedd yr adran hon ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â diwedd y cyfnod rheoli;

(b) mewn cysylltiad â rhyddhad o dan Atodlen 14 i DTTT (rhyddhad ar gyfer caffaeliadau penodol o anheddau), ni chaniateir rhoi hysbysiad trethdalwr yn rhinwedd yr adran hon ar ôl diwedd y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

(5C) Yn is-adran (5B)—

ystyr "cyfnod rheoli" (*"control period"*) yw—

(a) mewn perthynas â rhyddhad ar gyfer trafodiad o dan baragraff 13 o Atodlen 11 i DTTT, y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith;

(b) mewn perthynas â rhyddhad ar gyfer trafodiad o dan baragraff 15 o Atodlen 11 i DTTT, y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad cyntaf, y trafodiad yw'r ail drafodiad mewn cysylltiad ag ef (o fewn ystyr Atodlen 11), yn cael effaith;

(c) mewn perthynas â rhyddhad ar gyfer trafodiad o dan—

(i) paragraff 2 o Atodlen 16 i DTTT (rhyddhad grŵp),

(ii) paragraff 2 neu 3 o Atodlen 17 i DTTT (rhyddhad atgyfansoddi a rhyddhad caffael),

(iii) paragraff 3 neu 6 o Atodlen 18 i DTTT (rhyddhad elusennau), neu

(iv) paragraff 6 neu 7 o Atodlen 21A i DTTT (rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig),

y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith;

ystyr "rhyddhad sy'n ddarostyngedig i gyfnod rheoli" (*"relief subject to a control period"*) yw rhyddhad o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) paragraff 13 neu 15 o Atodlen 11 i DTTT (rhyddhad bondiau buddsoddi cyllid arall);

(b) paragraff 2 o Atodlen 16 i DTTT;

(c) paragraff 2 neu 3 o Atodlen 17 i DTTT;

(d) paragraff 3 neu 6 o Atodlen 18 i DTTT;

(e) paragraff 6 neu 7 o Atodlen 21A i DTTT.

(5D) Amod 4, o ran trafodiad, yw—

(a) y gwnaed ad-daliad o dreth trafodiadau tir a ordalwyd yn dilyn hawliad o dan baragraff 23A(5) o Atodlen 5 i DTTT, a

(b) y rhoddir yr hysbysiad at ddiben gwirio a yw'r ad-daliad wedi dod yn ad-daladwy.

(5E) Pan fo amod 4 wedi ei fodloni (ac nid unrhyw un neu ragor o amodau 1, 2 neu 3), ni chaniateir rhoi hysbysiad trethdalwr yn rhinwedd yr adran hon ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â diwedd y cyfnod rheoli.

(5F) Yn is-adran (5E), ystyr "cyfnod rheoli" yw'r cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r trafodiad gwaredu y gwnaed yr ad-daliad mewn cysylltiad ag ef yn cael effaith.

(5G) Mae i "trafodiad gwaredu" yr un ystyr at ddibenion is-adran (5F) ag at ddibenion paragraff 9A, 18A, 20A neu 21A (yn ôl y digwydd) o Atodlen 5 i DTTT.

(5H) Mae i'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith yr un ystyr at ddibenion yr adran hon ag at ddibenion adran 71 o DTTT."

(4) Mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn cael effaith pa bryd bynnag y dychwelwyd y ffurflen dreth trafodiadau tir o dan adran 44 o DTTT.

8 Archwilio mangre

(1) Mae DCRhT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 103 (pŵer i archwilio mangre busnes)—

(a) yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) Ond ni chaiff ACC ond cynnal archwiliad o'r fath yn unol ag is-adrannau (3) a (3A).";

(b) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Caniateir hefyd gynnal archwiliad at ddiben gwirio sefyllfa dreth person mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi heb gytundeb y meddiannydd a heb gymeradwyaeth y tribiwnlys—

(a) ar adeg resymol a bennir mewn hysbysiad a ddyroddwyd i'r meddiannydd o leiaf 7 niwrnod cyn yr adeg honno, neu

(b) ar unrhyw adeg resymol os oes gan ACC sail dros gredu y byddai hysbysu'r meddiannydd yn niweidio'r gwaith o asesu neu gasglu trethi a gesglir gan ACC yn ddifrifol.";

(c) yn is-adran (4), ym mharagraff (b), ar ôl "is-adran (3)(b)(i)" mewnosoder "neu (3A)(a)".

(3) Yn adran 103B (pŵer pellach i archwilio mangre: gwarediadau trethadwy a wneir yn rhywle ac eithrio safleoedd tirlenwi awdurdodedig), yn is-adran (3)—

(a) hepgorer "os oes gan ACC reswm i gredu";

(b) ym mharagraff (a), o flaen "y gwnaed" mewnosoder "os yw'r fangre yng Nghymru ac os oes gan ACC reswm i gredu";

(c) ym mharagraff (b), o flaen "bod meddiannydd" mewnosoder "os yw'r fangre yng Nghymru neu Loegr ac os oes gan ACC reswm i gredu".

(4) Yn adran 105 (cynnal archwiliadau: defnyddio offer a deunyddiau)—

(a) yn is-adran (2), ym mharagraff (b)(i), ar ôl "adran 103(3)(b)(i)" mewnosoder "neu 103(3A)(a)";

(b) yn is-adran (7)—

(i) ar ôl "adran 103(3)(b)(i)" mewnosoder "neu 103(3A)(a)";

(ii) yn lle "y ddarpariaeth honno fel y'i cymhwysir" mewnosoder "y darpariaethau hynny fel y'u cymhwysir".

(5) Yn adran 106 (pŵer i archwilio mangre neu eiddo er mwyn prisio etc.), yn is-adran (1), ar ôl "fangre", y tro cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "yng Nghymru".

(6) Yn adran 111 (dehongli Pennod 4), yn is-adran (1), yn y diffiniad o "mangre busnes" ar ôl "o fangre)" mewnosoder "yng Nghymru neu Loegr".

9 Llog taliadau hwyr ar drethi a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru

Yn adran 157 o DCRhT (llog taliadau hwyr ar drethi a gesglir gan ACC), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) Er mwyn osgoi amheuaeth, pan na thelir swm o dreth a gesglir gan ACC o fewn is-adran (1)(b) cyn dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, dygir llog ar y swm hwnnw ac nid y swm o dreth a gesglir gan ACC a nodir yn y ffurflen dreth a gaiff ei diwygio, ei chywiro neu ei hasesu fel y disgrifir yn is-adran (1)(b)."

10 Cymhwyso DCRhT i'r Goron at ddibenion treth trafodiadau tir

(1) Mae adran 187A o DCRhT (cymhwyso i'r Goron at ddibenion treth trafodiadau tir) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(e), yn lle "172(1)(d) ac (e), (3)(b) ac (c), (4), (5) a (6), 182 a 183" rhodder "172(2)(d) a 182".

(3) Yn is-adran (2), ar ôl "Rhan 4" mewnosoder "nac adrannau 172(2)(e), (3)(b) ac (c), (4), (5) a (6) a 183".

Treth trafodiadau tir

11 Eithriad ar gyfer trafodiadau hawliau ar y cyd rhag cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir

(1) Mae Atodlen 5 i DTTT (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3(5) (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch)—

(a) ym mharagraff (b) hepgorer "ac";

(b) ym mharagraff (c), yn lle "lleol)." rhodder "lleol), a";

(c) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) paragraff 9B (hawliau ar y cyd)."

(3) Ar ôl paragraff 9A (eithriad ar gyfer gwaredu dilynol i awdurdodau lleol: prynwr sy'n unigolyn mewn trafodiad annedd unigol) mewnosoder—

"Eithriad i bersonau sy'n arfer hawliau ar y cyd

9B Nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch o dan baragraff 3 os yw rhyddhad yn gymwys i'r trafodiad yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 14 (rhyddhad ar gyfer hawliau ar y cyd)."

(4) Ym mharagraff 11 (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch)—

(a) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Mae is-baragraff (1) yn gymwys yn ddarostyngedig i—

(a) is-baragraff (5), a

(b) yr eithriad yn is-baragraff (6).";

(b) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

"(6) Nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch o dan is-baragraff (1) os yw rhyddhad yn gymwys i'r trafodiad yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 14 (rhyddhad ar gyfer hawliau ar y cyd)."

(5) Ym mharagraff 20 (trafodiad sy'n ymwneud ag annedd)—

(a) yn is-baragraff (1A)—

(i) ym mharagraff (a), hepgorer "a";

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) is-baragraff (4), a";

(b) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch o dan is-baragraff (1) os yw rhyddhad yn gymwys i'r trafodiad yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 14 (rhyddhad ar gyfer hawliau ar y cyd)."

(6) Ym mharagraff 21 (trafodiad sy'n ymwneud ag anheddau lluosog)—

(a) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Mae is-baragraff (1) yn gymwys yn ddarostyngedig i—

(a) is-baragraff (5),

(b) is-baragraff (6), ac

(c) paragraff 21A (eithriad gwaredu dilynol i awdurdodau lleol).";

(b) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

"(6) Nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch o dan is-baragraff (1) os yw rhyddhad yn gymwys i'r trafodiad yn rhinwedd paragraff 10 o Atodlen 14 (rhyddhad ar gyfer hawliau ar y cyd).";

(c) hepgorer is-baragraff (5A).

12 Cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir: personau nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr

(1) Mae Atodlen 5 i DTTT (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 6 (dau brynwr neu ragor) mewnosoder—

"Unigolion nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr at ddibenion penodol

6A(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo dau neu ragor o brynwyr mewn trafodiad trethadwy, a phob un ohonynt yn unigolion, a

(b) pan mai'r gwerthwr ("y perchennog presennol") yw o leiaf un o'r prynwyr yn y trafodiad, ond nid pob un ohonynt, hefyd.

(2) Nid yw unrhyw berchennog presennol i'w drin fel prynwr at ddibenion paragraffau 3, 5, 6 ac 8."

(3) Ar ôl paragraff 15 (prynwr â phrif fuddiant mewn annedd arall) mewnosoder—

"Unigolion nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr at ddibenion penodol

15A(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo dau neu ragor o brynwyr mewn trafodiad trethadwy, a phob un ohonynt yn unigolion, a

(b) pan mai'r gwerthwr ("y perchennog presennol") yw o leiaf un o'r prynwyr yn y trafodiad, ond nid pob un ohonynt, hefyd.

(2) Nid yw unrhyw berchennog presennol i'w drin fel prynwr at ddibenion paragraffau 11, 12, 13, 15 a 17."

(4) Ar ôl paragraff 22 (dau brynwr neu ragor) mewnosoder—

"Personau nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr at ddibenion penodol

22A(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo dau neu ragor o brynwyr mewn trafodiad trethadwy,

(b) pan mai'r gwerthwr ("y perchennog presennol") yw o leiaf un o'r prynwyr yn y trafodiad, ond nid pob un ohonynt, hefyd,

(c) pan nad yw'r perchennog presennol yn unigolyn, a

(d) pan fo'r holl brynwyr yn y trafodiad ac eithrio'r perchennog presennol yn unigolion.

(2) Nid yw unrhyw berchennog presennol i'w drin fel prynwr at ddibenion—

(a) paragraffau 3, 5, 6 ac 8 (prynwyr sy'n unigolion: trafodiadau annedd unigol);

(b) paragraffau 11, 12, 13, 15 a 17 (prynwyr sy'n unigolion: trafodiadau anheddau lluosog);

(c) paragraffau 20 ac 21 (nid yw'r prynwr yn unigolyn)."

13 Trafodiadau sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth noeth

(1) Mae DTTT wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 6 (lesoedd)—

(a) ym mharagraff 7 (rhent ar gyfer cyfnod o orgyffwrdd os rhoddir les bellach), ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os rhoddir y les newydd gan ymddiriedolwr ymddiriedolaeth noeth (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraffau 2(1) a (2) o Atodlen 8) sy'n gweithredu ar ran buddiolwr y buddiant a ildir gan y tenant o dan yr hen les.

(5) Mae buddiolwr yr ymddiriedolaeth noeth (yn hytrach na'r ymddiriedolwr) i'w drin fel y landlord at ddibenion y paragraff hwn.

(6) Mae paragraffau 3(3) a (4) o Atodlen 8 (ymddiriedolwyr i'w trin fel y prynwr neu'r gwerthwr) yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn.";

(b) ym mharagraff 17 (ildio les bresennol am les newydd), ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw partïon i'w trin fel rhai gwahanol at ddibenion is-baragraff (1) os yw—

(a) y partïon â'r hawliau a'r buddiannau llesiannol yn y lesoedd a roddir ac a ildir yr un fath, a

(b) unrhyw wahaniaeth rhwng y partïon yn codi o ymwneud ymddiriedolwr ymddiriedolaeth noeth (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraffau 2(1) a (2) o Atodlen 8) y mae un o'r partïon hynny yn fuddiolwr mewn perthynas â hi.

(4) Mae paragraffau 3(3) a (4) o Atodlen 8 (ymddiriedolwyr i'w trin fel y prynwr neu'r gwerthwr) yn cael effaith yn ddarostyngedig i is-baragraff (3)."

(3) Yn Atodlen 9 (rhyddhad gwerthu ac adlesu), ar ôl paragraff 3 (amodau cymhwyso) mewnosoder—

"Adlesu gan ymddiriedolwr ymddiriedolaeth noeth

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os rhoddir yr elfen adlesu o drefniant gwerthu ac adlesu gan ymddiriedolwr ymddiriedolaeth noeth (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraffau 2(1) a (2) o Atodlen 8) sy'n gweithredu ar ran buddiolwr y buddiant a drosglwyddir neu a roddir yn y gwerthiant.

(2) Mae buddiolwr yr ymddiriedolaeth noeth (yn hytrach na'r ymddiriedolwr) i'w drin fel B at ddibenion yr Atodlen hon.

(3) Mae paragraffau 3(3) a (4) o Atodlen 8 (ymddiriedolwyr i'w trin fel y prynwr neu'r gwerthwr) yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn."

Treth gwarediadau tirlenwi

14 Gweithgarwch safle tirlenwi penodedig

(1) Mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 8 (gweithgarwch safle tirlenwi penodedig)—

(a) yn is-adran (3), ar ôl paragraff (f) mewnosoder—

"(fa) defnyddio deunydd mewn cell dirlenwi, ac eithrio—

(i) deunydd sy'n ffurfio haen yn union uwchben sylfaen y gell ac sy'n cyflawni'r swyddogaeth o ddraenio;

(ii) pibell, pwmp neu seilwaith cysylltiedig a fewnosodir yn y gell at ddibenion echdynnu neu reoli hylif neu nwy dros ben o'r gell honno neu o fewn y gell honno;";

(b) yn is-adran (4), yn y lleoedd priodol, mewnosoder—

"ystyr "cell dirlenwi" (*"landfill cell"*) yw uned neu strwythur o fewn safle tirlenwi awdurdodedig sydd wedi ei ffurfio o haen anhydraidd yn ei sylfaen a'i hochrau neu ei ochrau a, heblaw pan nad yw'r gell ond yn cynnwys deunydd anadweithiol, ar ben yr uned neu'r strwythur;";

"ystyr "haen anhydraidd" (*"impermeable layer"*) yw'r rhwystr daearegol, pa un a yw wedi ei ffurfio o haen fwynau unigol neu haen fwynau o'r fath wedi ei chyfuno â leinin selio neu gap artiffisial, sydd wedi ei leoli wrth berimedr cell dirlenwi sy'n wynebu am allan, sydd â'r swyddogaeth o atal hylifau neu nwyon rhag dianc o'r gell dirlenwi;".

Cyffredinol

15 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "DCRhT" (*"TCMA"*) yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6);

ystyr "DTTT" (*"LTTA"*) yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 1).

16 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

17 Enw byr

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Trethiant (Cymru) 2027, neu

(b) the Taxation (Wales) Act 2027.